

Atodiad G - Dyletswydd gonestrwydd

Rhoi gwybod, cyhoeddi a monitro

Rhoi Gwybod, cyhoeddi a monitro

Rhaid i ddarparwyr Gofal Sylfaenol baratoi adroddiad blynyddol ynghylch a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod i rym mewn perthynas â gofal iechyd y GIG y maent wedi ei ddarparu.

Rhaid i'r adroddiad nodi a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod i rym yn y flwyddyn adrodd, ac os ydyw:

- Nodwch pa mor aml mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei gweithredu yn ystod y flwyddyn adrodd.
- Rhowch ddisgrifiad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at weithredu'r ddyletswydd.
- Nodwch unrhyw gam sydd wedi cael ei gymryd gan y corff gyda golwg ar atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

(gall gynnwys gwybodaeth arall)



Rhaid i **ddarparwyr Gofal Sylfaenol** anfon yr adroddiad blynyddol at y **Bwrdd Iechyd Lleol** y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef erbyn 30 Medi bob blwyddyn.



Rhaid i'r **Bwrdd Iechyd Lleol** baratoi crynodeb o'r adroddiadau a dderbyniwyd gan y darparwyr gofal sylfaenol. Rhaid i'r crynodeb -

- Nodi pa mor aml, yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod i rym mewn perthynas â gofal iechyd a ddarparwyd ar ran y Bwrdd Iechyd Lleol gan ddarparwr Gofal Sylfaenol.
- Rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at weithredu'r ddyletswydd.
- Disgrifio unrhyw gam sydd wedi cael ei gymryd gan y darparwr Gofal Sylfaenol gyda golwg ar atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.



Byrddau Iechyd Lleol fydd yn gyfrifol am gyhoeddi'r holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gonestrwydd mewn cysylltiad â'i wasanaethau ei hun a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan wasanaethau Gofal Sylfaenol yn ei ardal.

Atodiad G - Dyletswydd gonestrwydd

Rhoi gwybod, cyhoeddi a monitro

Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig: gofynion adrodd

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig baratoi adroddiad blynyddol ar y ddyletswydd gonestrwydd.

Rhaid i'r adroddiad bennu a yw'r ddyletswydd gonestrwydd, yn ystod y flwyddyn adrodd, wedi dod i rym mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan y corff. Rhaid i'r adroddiad –

- Nodwch pa mor aml mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei gweithredu yn ystod y flwyddyn adrodd.
- Rhowch ddisgrifiad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at weithredu'r ddyletswydd.
- Nodwch unrhyw gam sydd wedi cael ei gymryd gan y corff gyda golwg ar atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

(gall gynnwys gwybodaeth arall)



Rhaid i **gyrff y GIG** gyhoeddi eu hadroddiadau gonestrwydd erbyn 31 Hydref bob blwyddyn.



Cyfrinachedd

Ni ddylai'r adroddiad a gyhoeddir enwi –

- Unrhyw un y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu iddo neu wedi cael ei ddarparu iddo gan y corff neu ar ei ran, neu
- Unrhyw un sy'n gweithredu ar ran unigolyn o'r fath.

Yn ogystal, rhaid rhoi sylw i'r angen i osgoi cynnwys unrhyw wybodaeth sydd, er nad yw mewn gwirionedd yn rhoi enw unigolyn, yn yr amgylchiadau sy'n debygol o alluogi adnabod yr unigolyn hwnnw.



Monitro

Dylid integreiddio perchnogaeth ac atebolrwydd lleol gydag adolygiadau cydymffurfio rheolaidd i'r fframweithiau llywodraethu presennol.

Bydd cydymffurfio â'r ddyletswydd yn rhan o'r materion sy'n cael eu hystyried gan Arolygiaeth Iechyd Cymru wrth arolygu ac adolygu'r GIG.

Bydd y gofynion adrodd blynyddol hefyd yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd a Llywodraeth Cymru am y ddyletswydd a fydd yn helpu i wneud y broses yn dryloyw.